Rhif 2
Mehefin 2015

Newyddion o'r Amgueddfa

CYMDEITHAS HANES LLAMBED
AMGUEDDFA LLAMBED

ebost: hanesllambed@btinternet.com
www.hanesllambed.org

Diwrnod Prisiad Rhagorol

Cafwyd diwrnod ardderchog adeg ein digwyddiad prisio cyntaf yn yr Amgueddfa.

Daeth llu a'u meddiannau gwerthfawr i'w prisio am ddim, gan Mr.Ian Taylor o Arwerthwyr Peter Francis, Caerfyrddin.

Y gobaith yw bydd hyn yn cael ei gynnal eto yn yr Amgueddfa, felly cadwch lygad ar ein gwefan, Clonc, a'r Grapevine am ddyddiadau.

Mwy o luniau ar y wefan

Arddangosfeydd am 2016

Mae angen eich cymorth. Os oes ganddoch unrhyw beth sydd a cysylltiad â Ffair Dalis y byddwch yn medru rhoi neu benthyg i'r Amgueddfa, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda. Cyswllt - hanesllambed@btinternet.com neu drwy adael manylion yn yr Amgueddfa.

Codi Cronfa

Er mwyn i ni gadw a gwella'r Amgueddfa mae angen codi arian.

Eleni ynghyd â'r calendr byddwn yn cynnal Raffl a fydd yn cael ei dynnu yn y Ffair Nadolig, sydd i'w gynnal yn Y Brifysgol ar 22 Tachwedd. Mae yna lu o wobrau. Punt yr un yw'r tocynnau. Gobeithiwn y byddwch yn cefogi'r Amgueddfa ac ar yr un pryd yn rhoi siawns i chwi ennill un o'r gwobrau.

Yn ychwanegol i'r rhoddion hael mae hefyd **Dê Champagne i ddau a rhoddwyd gan Westy Glyn Hebog.**

Ynghyd â'r Raffl byddwn yn trefnu Tudalen Cwis, yn addas i bawb. Bydd y rhain am £1 yr un ac i'w danfon yn ôl i'r Amgueddfa cyn y dyddiad penodol.

Bydd y buddugol yn ennill gwobr.

Tudalen Cwis i'w gael yn yr Amgueddfa cyn hir.

.

Gwirfoddolwyr o aelodau Hanes Llambed yn unig sydd yn rhedeg Amgueddfa Llambed, ac yr ydym ar agor Dydd Mawrth, Iau, a Sadwrn o 10y.b. hyd 4 y.h.

Diolch
Yr ydym yn ddiolchgar i Gwilym Price ei Fab a'i Ferched am eu cefnogaeth dros 2015.